
# ##NNF2 Adfer Wystrys Gwyllt i Fae Conwy – Adroddiad Gwerthuso'r Prosiect

2023-2025



*Llun clawr: Rhianna Parry, Swyddog Ymgysylltu ac Ymchwil, Phrifysgol Bangor*

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol

Nodau'r Prosiect

Y Penawdau

Monitro Meithrinfeydd Wystrys drwy Wyddoniaeth Dinasyddion

Gweithgareddau Adfer Wystrys Brodorol

Rhaglen Ymgysylltu

Rhaglen Addysg Ffurfiol

Datblygu Strategaeth Gynhwysiant

Casgliad

Gwaddol a dyfodol


## Diolchiadau

Hoffai Prosiect Adfer Wystrys Gwyllt Bae Conwy ddiolch i'n gweithgor lleol ac aelodau'r grŵp technegol am lywio'r gwaith o ddatblygu'r prosiect ym Mae Conwy. Diolch i dîm Harbwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gwblhau'r gwaith adleoli riffiau wystrys. Diolch I Farina Conwy a Marina Deganwy am gael defnyddio eu marinas i gynnal ein meithrinfeydd wystrys. Hoffem ddiolch i'n holl wirfoddolwyr a myfyrwyr ymroddedig sydd wedi cefnogi'r gwaith o gasglu ein data monitor wystrys. Hoffem ddiolch i'r ysgolion lleol, a'r arbenigwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant am eu mewnbwn i'n strategaeth gynhwysiant. Yn olaf, diolch i'r timau ehangach yng Nghymdeithas Sŵoleg Llundain a Phrifysgol Bangor am gefnogi canlyniadau llwyddiannus y prosiect.

## Arianwyr

Diolch am y cyllid hael a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, a ddarparwyd gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau) ac a ddyfarnwyd fel rhan o'r Gronfa Treftadaeth ar ran Llywodraeth Cymru. Hoffai tîm y prosiect hefyd ddiolch i NNF2 am eu hyblygrwydd â llinellau amser y prosiect, a sicrhaodd bod modd addasu gwaith adfer o amgylch bioleg ac ecoleg wystrys, fel bod modd cyflawni'r gweithgareddau a amlinellwyd dan bob un o amcanion y prosiect.


Darlun addurniadol o wystrys ac amrywiaeth o fywyd morol ar hyd gwely'r môr




*Pob darluniad: © 2020, Native Oyster Network - DU & Iwerddon, Native Oyster Restoration Alliance.*

## Crynodeb Gweithredol

*Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cyflawniadau amgylcheddol a chymdeithasol Prosiect Adfer Wystrys Gwyllt Bae Conwy, cydweithrediad dwy flynedd rhwng Cymdeithas Sŵoleg Llundain (ZSL) a Phrifysgol Bangor, i ddod â phoblogaethau o wystrys brodorol (Ostrea edulis) yn ôl I Fae Conwy, yng ngogledd Cymru.*

Gan ddefnyddio cyllid NNF2 rhwng Ebrill 2023 ac Awst 2025, roedd y prosiect hwn yn adeiladu ar sylfeini Prosiect Wystrys Gwyllt: Bae Conwy, a oedd yn weithredol rhwng 2020 a 2023. Roedd prif elfennau'r prosiect yn cynnwys ehangu gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithgareddau estyn allan, cynyddu ymdrechion i adfer wystrys brodorol, a datblygu ein gwaith monitro meithrinfeydd wystrys drwy wyddoniaeth dinasyddion. Llwyddodd y prosiect i gyrraedd ei darged o adleoli 45m3/ 20 tunnell o walfâu a 2,000 o wystrys yn y safle adfer. Cyrhaeddwyd nifer trawiadol o 11,280 o bobl a 3,060 o fyfyrwyr drwy raglen ymgysylltu'r prosiect, gan gynnwys gweithdai a ddatblygwyd ar y cyd â grwpiau ethnig leiafrifol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, ffeiriau addysg, ac ymweliadau safle 'Saffari Wystrys'.

Mae'r prif wersi a ddysgwyd, sy'n cael eu rhannu isod, yn cynnwys pwysigrwydd cynllunio'n gynnar ar gyfer prosesau trwyddedau morol, ymgysylltu parhaus â gwirfoddolwyr a grwpiau sydd â diddordeb er mwyn datblygu'r prosiect yn lleol, a chostau uchel a heriau logistaidd storio ac adleoli gwalfâu.

Mae'r adroddiad hwn yn rhannu llwyddiannau a heriau er mwyn llywio ymdrechion i adfer wystrys brodorol yn y dyfodol ledled y DU, gan sicrhau bod gwersi a ddysgwyd ym Mae Conwy yn gallu cefnogi adferiad ehangach y rhywogaeth hon sydd o bwysigrwydd ecolegol a diwylliannol.



*llun: Sesiwn monitro meithrinfeydd wystrys gyda gwirfoddolwyr. © Rhianna Parry*

## Nodau'r Prosiect

*Gan adeiladu ar y canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol a gyflawnwyd drwy gyllid blaenorol, roedd prosiect #NNF2 Adfer Wystrys Gwyllt i Fae Conwy yn canolbwyntio ar ddau brif nod:*

## Nod 1


*Gwella cyflwr cynefin wystrys brodorol ym Mae Conwy, a bwydo ymchwil a gwybodaeth y prosiect I ymdrechion cenedlaethol i adfer wystrys brodorol.*

- Cynnal arolygon i fonitro safle'r treial adfer wystrys brodorol.
- Parhau â gwaith monitro bioamrywiaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cymunedau ecolegol sy'n gysylltiedig â riffiau wystrys brodorol.
- Ymgynghori â'r gweithgor lleol er mwyn cwmpasu a datblygu'r treial adfer a threialu'r defnydd o wahanol ddeunyddiau gwalfâu (e.e., grawn-ar-gragen, cregyn rhydd), gan gyfrannu tuag at esblygiad y dull adfer.
- Cynyddu maint safle'r treial adfer wystrys brodorol, drwy adleoli 10,000 o wystrys brodorol aeddfed ar wely'r môr.
- Cynhyrchu a dosbarthu adroddiad monitro gwyddonol yn crynhoi gweithgareddau adfer, canfyddiadau, a gwersi a ddysgwyd—gan rannu'r rhain â'r gymuned adfer wystrys brodorol genedlaethol ac Ewropeaidd.

## Nod 2

*Cefnogi dyfodol hirdymor gwelyau wystrys wedi'u hadfer drwy gael ystod ehangach o bobl leol I ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol ac ecolegol wystrys ym Mae Conwy.*

- Addysgu ac ysbrydoli 3,000 o bobl ifanc o ysgolion, colegau, a phrifysgolion lleol i ddysgu am yr amgylchedd morol a dod yn stiwardiaid morol drwy ymweliadau ymarferol â safleoedd marinas lle sefydlwyd meithrinfeydd wystrys.
- Ymgysylltu â 10,000 o drigolion lleol drwy ddigwyddiadau estyn allan a chynnwys digidol, gan gynyddu ymwybyddiaeth o rôl ecolegol wystrys brodorol a meithrin ymdeimlad o falchder lleol a pherchnogaeth o stori adfer Bae Conwy.
- Hyfforddi 60 o ddinasyddion-wyddonwyr i gymryd rhan yn y gwaith misol o fonitro meithrinfeydd wystrys, gan adeiladu sgiliau lleol a chael pobl i ymwneud yn yr hirdymor.
- Cyhoeddi adroddiad yn monitro a gwerthuso gweithgareddau addysg ac estyn allan y prosiect, ac yn cofnodi'r prif wersi a ddysgwyd—yn fwyaf arbennig ar ôl ymgysylltu â chynulleidfaoedd STEM a chymunedau ethnig leiafrifol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.




*Ffigur 1: Map o hwb adfer Bae Conwy yng ngogledd Cymru yn dangos lleoliad Marina Conwy, Marina Deganwy a'r safle adfer gwely'r môr.*

Ni fyddai'r prosiect wedi bod yn bosibl oni bai am y £249,919 o gyllid gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau) (NNF2), a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## Y Penawdau

### Y prif ganlyniadau wedi'u tracio yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)

*Mae'r prif ystadegau hyn yn ymwneud ag effaith hwb adfer Bae Conwy rhwng Ebrill 2023 ac Awst 2025.*

| Categori | DPA | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Cynyddu'r gweithgareddau adfer cynefin riffiau wystrys presennol | Adleoli 100 tunnell o walfâu | Adleoli 20 tunnell o walfâu a 2,000 o wystrys* |

| Categori | DPA | Canlyniadau |
|---|---|---|
| | Rhyddhau 10,000 o wystrys aeddfedRelease 10,000 mature oysters | *Dylanwadwyd ar amseriad a chwmpas adleoli gwalfâu ac wystrys yn ystod y prosiect gan brosesau rheoleiddiol ac ymgynghori â rhanddeiliaid, y rhoddwyd sylw iddynt ar ddechrau 2025 (gweler isod am fanylion pellach). |
| Nifer y myfyrwyr a gyrhaeddwyd drwy ddarparu gweithgareddau estyn allan addysgol/modiwlau dysgu | 3,000 o fyfyrwyr | 3,060 o fyfyrwyr |
| Hyfforddi dinasyddion-wyddonwyr mewn dulliau adfer a monitro wystrys brodorol | 60 o wirfoddolwyr | 185 o wirfoddolwyr newydd + 118 o wirfoddolwyr yn dychwelyd - cyfanswm o 303, yn cyfateb i dros 1,460 o oriau gwirfoddoli |
| Ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws y prosiect | 10,000 o bobl | 11,280 o bobl |

Ysbrydoli 11,280 o bobl i ymwneud ag adfer Wystrys ym Mae Conwy.

Cyrraedd 3,060 o fyfyrwyr drwy weithgareddau estyn allan addysgol a modiwlau dysgu.



*Llun: Disgyblion o Ysgol Cynfran yn cymryd rhan yn ein rhaglen addysgol yn ystod y gweithdy cyn-safle a Saffari Wystrys*.

Gwirfoddolwyr wedi cynnig dros 1,460+ o oriau yn adfer a monitro.

Hyfforddi 303 o ddinasyddion-wyddonwyr mewn dulliau adfer a monitro wystrys brodorol.



*Llun: Prosiect Wystrys Gwyllt: Tîm Bae Conwy. Llun © Lucie Machin*

## Canlyniadau Monitro Meithrinfeydd Wystrys:

| Categori | Canlyniadau |
|---|---|
| Larfâu wystrys a ryddhawyd | ~240 miliwn o larfâu**<br><br>**tua 240 miliwn o larfâu yn ystod y tymhorau silio yn 2023 a 2024. Mae gwaith monitro ar gyfer y tymor silio presennol yn 2025 yn parhau. |
| Cyfradd oroesi flynyddol wystrys | 83% |
| Nifer y litrau o ddŵr a hidlwyd | ~112,200,000 litr***<br><br>*** Amcangyfrifir y gyfradd hidlo o Ebrill 2023 i Fai 2025 ar sail cyfradd hidlo o 3l/awr/wystrysen o Haure et al., 1998, gan ystyried marwolaethau wystrys a ffigurau ailstocio. |
| Rhywogaethau unigryw a recordiwyd wrth samplo bioamrywiaeth | 79 o wahanol dacsonau wedi'u recordio |
| Organebau unigol a gofnodwyd | 10,196 |
| Nifer yr wystrys a gadwyd mewn meithrinfeydd | 2,435 |

# Monitro Meithrinfeydd Wystrys Drwy Wyddoniaeth Dinasyddion

*Roedd llwyddiant Nod 2 yn cynnwys cadw a recriwtio dinasyddion-wyddonwyr i gynnal arolygon o 2,000+ o wystrys mewn meithrinfeydd a sefydlwyd ym Marinas Conwy a Deganwy.*

Yn ystod cam cyntaf y Prosiect Wystrys Gwyllt hyfforddwyd nifer anhygoel o 172 o wirfoddolwyr newydd ym Mae Conwy. Er ein bod yn gweithio tuag at darged llai dan y prosiect a oedd yn cael ei ariannu â chyllid NNF2, rhagorwyd yn rhwydd ar y targed o 60 o ddinasyddion-wyddonwyr wedi'u hyfforddi. Erbyn diwedd y prosiect, roedd 185 o wirfoddolwyr newydd a 118 o wirfoddolwyr yn dychwelyd wedi cyfrannu 1,460 o oriau i'r prosiect. Mae ymdrechion i adeiladu cymuned o wirfoddolwyr wedi bod yn effeithiol, ac mae 40% o'r gwirfoddolwyr yn wirfoddolwyr sy'n dychwelyd. Mae hyn yn dangos brwdfrydedd parhaus mewn cymunedau lleol i fod yn stiwardiaid morol, a phan gynigid cyfle iddynt wneud cysylltiadau newydd a dysgu sgiliau newydd roeddent yn rhagori wrth gyfrannu tuag at ymdrechion adfer.

Cyfathrebwyd â'r gymuned wirfoddolwyr a rhannwyd diweddariadau am y prosiect ar-lein, gan rannu diweddariadau rheolaidd drwy Whatsapp, Instagram, Facebook, X, y rhestr o gyfeiriadau ebost gwirfoddolwyr (287 o danysgrifwyr hyd yn hyn), a thîm y cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor. Rhannwyd y rhan fwyaf o'r postiadau yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddibynnu a oedd yr aelod o'r staff yn dod o ZSL (sefydliad cyfrwng Saesneg) neu o Brifysgol Bangor (dwyieithog). Defnyddiwyd gwasanaeth cyfieithu Prifysgol Bangor hefyd I helpu i gyfieithu deunyddiau.

Rhannwyd fideo yn diolch i wirfoddolwyr ac yn crynhoi data monitro'r flwyddyn ar Instagram:
[www.instagram.com/p/DDh6MJPOh3b/](www.instagram.com/p/DDh6MJPOh3b/)

Roedd tasgau'r gwirfoddolwyr yn cynnwys helpu i fonitro goroesiad wystrys, cofnodi a ydynt yn silio, a thracio'r fioamrywiaeth gysylltiedig sy'n rhyngweithio â'r meithrinfeydd. Caiff data o'r gwaith monitro meithrinfeydd wystrys eu bwydo i bapur ymchwil ar y fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â meithrinfeydd wystrys. Datgelodd gwaith samplu larfâu wystrys wythnosol yn ystod y tymor silio fod 1.2 miliwn o larfâu i bob wystrys, ar gyfartaledd, wedi'u rhyddhau ym Marina Conwy yn ystod haf 2024.

Mae'r fideo byr hwn yn cofnodi'r prif weithgareddau a gyflawnwyd:
https://vimeo.com/1006733806

Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd y prosiect 600 yn rhagor o wystrys brodorol er mwyn hybu'r stoc mewn meithrinfeydd ym marinas Conwy a Deganwy. Bu'r gwirfoddolwyr yn arsylwi ar ffurfiadau 'cloc'/wystrys yn setlo ar wystrys eraill gan ffurfio 'clympiau o wystrys' yn y meithrinfeydd yn y marinas, sy'n gamau cynnar ffurfio riff. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd wedi cofnodi dros 100 achos o weld llysywod sydd mewn Perygl Difrifol yn byw yn y meithrinfeydd. Mewn ymateb, mae dinasyddion-wyddonwyr wedi dechrau monitro eu presenoldeb a'u maint, ac maent yn ceisio integreiddio'r data hyn yn eu cronfeydd data presennol.



*Llun: Gosodiad celf tywod wedi'i greu gan wirfoddolwyr yng ngŵyl wystrys yr hydref. Llun © Soul2Sand*

## Canlyniadau Monitro Meithrinfeydd Wystrys:

*Crynodeb o'r data monitro meithrinfeydd wystrys a gasglwyd, ac a ddefnyddiwyd i asesu'r cymunedau o rywogaethau cysylltiedig, marwolaethau wystrys ac atgenhedlu.*

| Paramedr | Maint y Sampl | Dull | Amlder |
|---|---|---|---|
| Bioamrywiaeth symudol | Monitro 12 meithrinfa fioamrywiaeth | Rhwyd rhwyll 1mm o amgylch y feithrinfa. Y cynnwys yn cael ei rinsio drwy ogr rhwyll 1mm, i hambwrdd i gael ei adnabod | Misol, drwy'r flwyddyn |
| Bioamrywiaeth anfudol | 9 Wystrys yn cael eu dewis ar hap ym mhob meithrinfa fioamrywiaeth | Rinsio, tynnu lluniau o ochr ddorsal a fentrol. Dadansoddi â BIIGLE | Misol, drwy'r flwyddyn |
| Marwolaethau | Pob wystrysen ar bob safle | Arsylwi | Misol |
| Monitro larfâu | Suddo 40 o wystrys, agor a gwirio o leiaf 30 o wystrys ym mhob hwb adfer | Suddo wystrys mewn 5% $MgCl_2$ | Wythnosol, Mai i Fedi |

## Gwersi a Ddysgwyd

### Cyfathrebu

Mae postiadau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol ynghyd â grwpiau Facebook a WhatsApp caeedig yn effeithiol er mwyn cyfathrebu â gwirfoddolwyr ac maent yn helpu I gadw diddordeb gwirfoddolwyr.

### Amser

Mae meithrinfeydd wystrys yn offeryn ymgysylltu effeithiol ond dylid adolygu gofynion amser a chapasiti mewn unrhyw brosiectau tebyg.

### Gweinyddu

Gall mecanweithiau cofrestru gwirfoddolwyr ar-lein megis Volunteersignup.org leihau baich gweinyddol.

### Casglu Data

Yn ystod sesiynau gwirfoddolwyr, rhoddir gwahanol dasgau i'r gwirfoddolwyr, gan gynnwys cofnodi data ar gopi caled. Mae tîm y prosiect yn tynnu lluniau o gopïau caled o ddata, ac yn eu lanlwytho i daflenni Excel a rennir.

*"Diolch i chi i gyd am y sesiwn wystrys gwych ddoe. Mae'n rhyfeddol pa mor gymhleth yw'r creaduriaid hyn a chymaint o bethau sydd o'u cwmpas. Mae'n rhaid i mi ddod o hyd i fideo ohonyn nhw'n defnyddio'r goes yna. Byddwn yn bendant yn hoffi gwirfoddoli i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill gyda'r prosiect Wystrys."*

- Carl Harper (Deiliad Angorfa a Gwirfoddolwr)

*"Ymunais ag un o'r sesiynau, ac ar ôl hynny dechreuais fynd i'r digwyddiadau monitro rheolaidd — ac rydw i wedi mwynhau hynny'n fawr iawn. Dw i'n bendant eisiau ymwneud â mwy o brosiectau gwirfoddoli. Mae'n eich gwneud chi'n ymwybodol o'r hyn sydd gennym ni yma. Mae cymaint o fywyd yma. Dw i wedi bod yn y Deyrnas Unedig ers pedair blynedd, a dw i ddim yn meddwl mod i weld gweld cymaint o fywyd morol ag rydw i wedi'i weld yma."*

- Giulia Leanza (Gwirfoddolwraig)

*"Dw i wedi bod eisiau gweithio yn y sector cadwraeth ac amgylcheddol erioed, felly mae'n wych cael profiad ymarferol. Do'n i ddim yn gwybod llawer am wystrys cyn ymuno â'r prosiect hwn a do'n i ddim yn sylweddoli cymaint maen nhw wedi dirywio yn y Deyrnas Unedig — rydyn ni wedi colli cymaint o'n riffiau wystrys. Maen nhw'n gynefin mor bwysig, ac mae'n brofiad rhyfeddol cael helpu i ddod â rhywfaint o'r fioamrywiaeth yna yn ôl i'n moroedd."*

- Abigail Wilkin (Gwirfoddolwraig)

## Adfer Cynefin Wystrys Brodorol

*Mae wystrys brodorol yn cael eu cydnabod fel rhywogaeth allweddol i'r gwasanaethau a'r prosesau ecosystem. Maen nhw'n darparu gwasanaeth pwysig, gan greu cynefinoedd i rywogaethau morol eraill, gwella ansawdd ac eglurder dŵr, ac ailgylchu maethynnau.*

Nod y prosiect hwn yw adfer cynefin wystrys brodorol, ac ochr yn ochr â hynny, y gymuned fioamrywiol o organebau cysylltiedig a threftadaeth ddiwylliannol leol, gan gyfrannu tuag at adferiad moroedd. Dan Nod 1 y prosiect, pennwyd gweithgareddau i adfer gwely'r môr:

- Cynnal arolygon i fonitro safle'r treial adfer wystrys brodorol.
- Parhau i fonitro bioamrywiaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cymunedau ecolegol sy'n gysylltiedig â riffiau wystrys brodorol.
- Adleoli 100 tunnell o ddeunydd gwalfâu, ac adleoli 10,000 o wystrys unigol.

## Gweithgareddau adfer blaenorol

Llwyddodd y prosiect Wystrys Gwyllt blaenorol, a ariannwyd gan Loteri Cod Post y Bobl i sefydlu meithrinfeydd wystrys yn hongian o dan bontwnau ym Marina Conwy a Marina Deganwy. Mae meithrinfa wystrys yn ficro-gynefin sy'n cynnwys wystrys aeddfed a fydd yn atgynhyrchu ac yn rhyddhau larfâu wystrys i aber ehangach afon Conwy. Yn 2020 ffurfiodd y prosiect weithgor lleol, yn cynnwys y grwpiau lleol a ganlyn: Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Cwmni Cregyn Gleision Conwy, Swyddfa Harbwr Conwy, Ysgol Porth y Felin, Gwasanaethau Addysg Cyngor Conwy, Marina Deganwy, Marina Conwy, Prifysgol Bangor a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dechreuodd ymdrechion i adfer cynefin wystrys brodorol ym mis Mehefin 2023 pan adleolwyd 650 tunnell o raean wedi'i gaffael yn lleol. Nododd arolwg ôl-adleoli ddosbarthiad anwastad o raean, â thwmpathau yma ac acw, a bu'n rhaid gohirio'r gwaith o adleoli 'gwalfâu' cregyn hindreuliedig a rhyddhau wystrys tan 2025. Ar ôl darganfod yr ardaloedd twmpathog o raean, hysbysodd y prosiect yr holl reoleiddwyr perthnasol a rhannodd y data â Swyddfa Hydrograffig y DU, Harbwrfeistr Conwy, a Cyfoeth Naturiol Cymru, a bu'n gweithio gydag awdurdodau perthnasol i ganfod ateb.

## Trwyddedu Morol a monitro

Gan fod y gweithgareddau adfer wedi'u gohirio, ymgeisiodd y prosiect am drwydded forol newydd i geisio hwyluso'r gwaith o lefelu twmpathau graean a deunydd sylfaen a oedd wedi'i adleoli o'r blaen, â'r nod o greu amgylchedd ffafriol i ddenu wystrys brodorol aeddfed. Cyflwynwyd cais am drwydded forol (MLA) (Band 2) I lefelu gwely'r môr ym mis Mehefin 2024 â graddfa amser o 4 mis ar gyfer penderfyniad. Ymgynghorwyd ynglŷn â'r MLA â chyrff perthnasol, sefydliadau a'r cyhoedd a bu'r tîm yn gweithio gyda chwmni ymgynghorol Environmental Resources Management Ltd (ERM) er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol a adolygwyd gan dîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Nodir y prif weithgareddau a gyflawnwyd dan y broses hon isod:

- Mehefin 2023 - Adleoli gwalfâu (graean lleol). Nodwyd dosbarthiad graean anwastad.
- Mehefin 2024 - Cyflwyno MLA ar gyfer lefelu gwely'r môr.
- Medi 2024 - Rhoi'r MLA o'r neilltu, nes bydd adolygiad wedi'i wneud o wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus Trwyddedu Morol CNC.
- Rhagfyr 2024 - Yr MLA o'r neilltu o hyd nes bydd Isadran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru wedi darparu ymateb i Drwyddedu Morol CNC.
- Chwefror 2025 - Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol, daeth yn amlwg nad oedd pryderon wedi'u codi a gadawyd i'r ardal ail-lefelu yn naturiol. O ganlyniad, tynnwyd yr MLA ar gyfer lefelu gwely'r môr yn ôl.

## Gweithgareddau adfer diwygiedig a ddarparwyd

Yn y cyfamser, cynhaliwyd arolygon rheolaidd o wely'r môr gan ddefnyddio seinblymiwr aml-belydr er mwyn monitro ôl-troed y prosiect, uchder gwely'r môr ac ailddosbarthiad naturiol graean a adleolwyd yn yr ardal adfer (yn ardal drwydded Gorllewin Bwrling). Dangosodd yr arolygon leihad naturiol, graddol yn y twmpathau graean. Yn ogystal, cynhaliwyd arolygon gostwng camera, ac arolygon fideo tanddwr o bell yn defnyddio abwyd, yn flynyddol ar y safle adfer a'r safle rheolydd fel rhan o'r gwaith parhaus o fonitro'r prosiect.

Parhaodd y gweithgorau lleol hefyd â chynrychiolwyr o'r Awdurdod Harbwr Lleol, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA-CIC), Pysgotwyr Conwy, Cymdeithas Sŵoleg Llundain (ZSL), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Prifysgol Bangor, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol/ Natur am Byth a phartïon â diddordeb. Rhannwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr arolwg a'r cynnydd â'r drwydded. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd y prosiect ddau gyfarfod o'r gweithgor technegol penodol a chyfarfod gyda Chymdeithas Pysgotwyr Cymru, lle ffurfiwyd cynllun wedi'i addasu o'r gwaith o adleoli 20 tunnell o walfâu a 2,000 o wystrys brodorol er mwyn cyflawni amcanion y prosiect.

Ym mis Mehefin 2025, llwyddodd tîm y prosiect I gyflawni'r targed o adleoli 45m3 / 20 tunnell o walfâu a 2,000 o wystrys. Gan ddefnyddio cafn llithro rwbel 5 metr, rhoddwyd deunyddiau mewn ardal yn mesur 32 x 20m o'r safle adfer, er mwyn osgoi creu rhagor o dwmpathau gwalfâu ar wely'r môr. Y gwaith adleoli hwn oedd y treial ymchwil cyntaf ar raddfa fach i brofi dichonoldeb adfer wystrys ym Mae Conwy.

*Map yn dangos ardal y drwydded (blwch melyn) ym Mae Conwy lle gwnaethpwyd gwaith i adfer gwely'r môr. Ffynonellau mapiau sylfaenol: Esri, DigitalGlobe, GeoEye, i-cubed, USDA FSA, USGS, AEX, Getmapping, Aerogrid, IGN, IGP, swisstopo, a'r Gymuned Defnyddwyr GIS.*





*Llun: © Rhianna Parry*



*Llun: Gwalfâu yn cael eu hadleoli i wely'r môr gan ddefnyddio cafn llithro rwbel 5 metr wedi'i addasu, yn cael ei ymestyn o ochr cwch. Llun: © Rhianna Parry*

## Cynllun Monitro Adfer Gwely'r Môr

*Crynodeb o'r cynllun monitro adfer gwely'r môr. Casglwyd data i asesu ôl troed y prosiect ac uchder y rîff, infertebratau isfilodaidd, rhywogaethau symudol, cynefin a rhywogaethau anfudol, gorchudd cregyn, dwysedd wystrys, maint wystrys a setliad wystrys.*

| Metrig Monitro | Dull | Amlder |
|---|---|---|
| Ôl troed carbon y prosiect ac uchder y riff | Data seinblymiwr aml-belydr | Cyn ac ar ôl adleoli, yn flynyddol |
| Infertebratau isfilodaidd | Samplau crafanc | Cyn ac ar ôl adleoli'r riff, yn flynyddol |
| Rhywogaethau symudol | Arolwg BRUV (3 yn y safle riff, 3 yn y safle rheolydd) | Cyn ac ar ôl adleoli'r riff, yn flynyddol |
| Cynefin a rhywogaethau anfudol<br>Gorchudd cregyn<br>Dwysedd wystrys<br>Maint wystrys | Fideo gollwng camera a lluniau llonydd (100 llun llonydd I bob safle riff a 100 i bob safle rheolydd) | Cyn ac ar ôl adleoli'r riff, yn flynyddol |
| Setlo | Defnyddio dau gasglwr sil ym mhob hwb adfer | Defnyddio am 6 mis y flwyddyn, rhwng Mai a Thachwedd<br><br>***Dull yn cael ei ailasesu** |

## Gwersi a ddysgwyd: Gweithgareddau Adfer Wystrys Brodorol

### Ystyriaethau Trwydded Forol

Rhoi blaenoriaeth i ddatblygu MLA, gan gynnwys unrhyw amrywiadau posibl, ar ddechrau llinellau amser prosiect. Gwneud cais yn gynnar er mwyn sicrhau nad yw gwaith yn cael ei wthio yn ôl I ffenestri tywydd llai ffafriol, ac ystyried sut y bydd ymgyngoriadau yn effeithio ar gapasiti staff. Ystyried siarad yn uniongyrchol â'r corff trwyddedu cyn cyflwyno cais er mwyn deall a oes angen MLA er mwyn gwneud y gwaith gofynnol.

### Hyblygrwydd

Yn y cais MLA, dylid cynnwys mwy o hyblygrwydd ynglŷn ag uchder a maint riffiau er mwyn darparu ar gyfer ystyriaethau logistaidd ac ymarferol yn ystod y gwaith adleoli, gan ddarparu parth clustogi defnyddiol ar gyfer addasiadau ar y ddaear.

## Ymgyngoriadau

Cytuno a threfnu ymgyngoriadau cynnar rhwng y llywodraeth, rhanddeiliaid lleol (megis pysgotwyr, cwmnïau dyframaeth, a defnyddwyr eraill y môr), a chyrff cynrychioladol perthnasol er mwyn adeiladu ymddiriedaeth a sicrhau cefnogaeth barhaus i'r prosiect. Cofnodi pob tystiolaeth o ymgyngoriadau â rhanddeiliaid ac ymgysylltu â grwpiau allweddol cyn ymgynghoriad cyhoeddus ehangach er mwyn sicrhau bod modd cyflawni gweithrediadau mewn pryd.

## Proses

Ymchwilio a deall gweithdrefnau gwrthwynebu ac ymgynghori lleol, gan ganiatáu amser yng nghynllun y prosiect i ystyried unrhyw bryderon a godir gan randdeiliaid. Ystyried sut y gellir cadw at ddeddfwriaeth genedlaethol ar adfer cynefin morol tra'n sicrhau bod targedau'r prosiect yn cael eu cyrraedd o fewn y ffrâm amser benodedig.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Dylid parhau i ymgysylltu â physgotwyr drwy gydol cylch bywyd y prosiect a dylid rhoi blaenoriaeth i ryngweithiadau wyneb yn wyneb ar lawr gwlad. Defnyddio rhwydweithiau cysylltu, a ffurfio partneriaeth â physgotwyr os yw hynny'n ddichonadwy.

## Cost

Mae storio ac adleoli gwalfâu yn ddrud, yn cymryd llawer o amser ac yn heriol, a gall argaeledd logistaidd lleol fod yn brin.

I gael rhagor o wybodaeth am ganlyniadau eingweithgareddau adfer cynefin wystrys, gweler yr adroddiad: **#NNF2 Restoring Wild Oysters to Conwy Bay: Technical Report on Oyster Monitoring and Habitat Restoration.**




*Llun: Cregyn bylchog hindreuliedig, yn barod i gael eu casglu gan y cludwr, eu rhoi mewn bagiau a'u hadleoli. © Rhianna Parry*

## Rhaglen Ymgysylltu

*Mae gweithgareddau monitro ac adfer wystrys yn cynnig cyfle anhygoel i gymunedau lleol gysylltu â'u treftadaeth arfordirol drwy addysg a gwyddoniaeth dinasyddion.*

Er mwyn cyrraedd y targed uchelgeisiol o ymgysylltu â 10,000 o bobl dros 2 flynedd, ariannodd y prosiect y gwaith o recriwtio Swyddog Ymgysylltu ac Ymchwil rhan-amser, a fyddai yn y swydd o fis Ionawr 2024 ymlaen, i arwain y gweithgareddau ymgysylltu â chynulleidfa ehangach ac ymestyn cyrhaeddiad drwy ddatblygu strategaeth gynhwysiant newydd.

Mae gweithgareddau'r rhaglen ymgysylltu yn cynnwys sesiynau gwyddoniaeth dinasyddion i wirfoddolwyr, a sesiynau estyn allan at y cyhoedd ac addysg. Roedd pob gweithgaredd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o nodau'r prosiect, cynyddu llythrennedd morol, mynediad agored at ymdrechion adfer, a defnyddio cyfranogiad cymunedol tra'n addysgu pobl ynglŷn â manteision go iawn gweithgareddau adfer.

## Ar Ddiwedd Y Prosiect Rydym Wedi:

- Cyrraedd 3,060 o fyfyrwyr
- Darparu 32 o sesiynau addysg
- Cynnwys cyfanswm o 303 o ddinasyddionwyddonwyr, gan gynnwys 185 newydd a 118 yn dychwelyd
- Dros 1,460 o oriau gwirfoddoli wedi'u cyfrannu at y prosiect
- Ymgysylltu ag 11,280 o aelodau o'r cyhoedd
- Darparu 59 o weithgareddau/digwyddiadau




*Llun: Digwyddiad dangos gwerthfawrogiad o'r gwirfoddolwyr: 'Dathliad: Noson Pizza a Ffilm' (3 Mehefin 2024)*

## Estyn allan at y cyhoedd ac ymgysylltu

Mae enghreifftiau o'r prif ddigwyddiadau a gynhaliwyd i'w gweld isod:

- Gŵyl Wyddoniaeth Bangor, Prifysgol Bangor – 9 Mawrth 2024, 1,682 o bobl
- Gŵyl Fwyd Caernarfon (Pentre Bwyd Môr), Caernarfon – 11 Mai 2024, 2,000 o bobl
- Diwrnod Darganfod Bwyd Môr Dylan's, Cricieth – 13 Gorffennaf 2024, 1,700 o bobl
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Rhondda Cynon Taf – 8–9 Awst 2024, 600 o bobl
- Saffari Wystrys (Diwrnod Agored Deiliaid Angorfeydd), Marina Conwy – 29 Awst 2024, 58 o bobl
- Gŵyl y Môr (Y Môr a Ni), Y Fflint – 22 Mawrth 2025, 292 o bobl
- Dathliad 1,500 o Flynyddoedd ym Mangor (Parth Gwyddoniaeth), Pier Bangor – 1 Mawrth 2025, 250 o bobl

### Digwyddiadau Dathlu Cymunedol

Roedd dau brif ddigwyddiad yn cryfhau cysylltiadau cymunedol a dathlu ymwneud â'r prosiect:

- Gŵyl Wystrys yr Hydref, Morfa Conwy — Diwrnod i'r teulu â gwyddoniaeth, celf a chrefft, a cherddoriaeth, â'u gwreiddiau yn nhreftadaeth arfordirol Cymru. 160 o bobl.
- Dathlu Gwirfoddolwyr: Noson Pizza a Ffilm, Bangor — Cynhaliwyd y dathliad yn ystod yr Wythnos Gwirfoddolwyr. Dangoswyd ffilm a chyflwynwyd data, a daeth 11 o wirfoddolwyr ynghyd.

### Roedd y digwyddiadau eraill i ddangos gwerthfawrogiad o wirfoddolwyr yn cynnwys:

- Sesiwn Monitro Nadoligaidd (Rhagfyr 2024), â 9 gwirfoddolwr yn cymryd rhan.
- Taith mewn Cwch i'r Safle Adfer (Gorffennaf 2025), â 12 gwirfoddolwr yn adleoli 200 o wystrys i wely'r môr, gan ychwanegu at y 1,800 a oedd wedi'u lleoli'n barod.

I gael rhagor o wybodaeth am ein rhaglen ymgysylltu, gweler ein hadroddiad: **#NNF2 Adfer Wystrys Gwyllt i Fae Conwy: Adroddiad Technegol ar Fonitro Wystrys ac Adfer Cynefin**





*Llun: Digwyddiad gwerthfawrogi gwirfoddolwyr: Trip mewn cwch i weld y safle adfer gwely'r môr wedi'i gwblhau ar gyfer adleoli 200 o wystrys (2 Gorffennaf 2025)*

## Rhaglen addysg ffurfiol

Datblygwyd y rhaglen addysg ffurfiol er mwyn gwella llythrennedd morol ac ymwybyddiaeth o wystrys brodorol a'r gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu ymhlith disgyblion Cyfnod Allweddol 2 – Cyfnod Allweddol 3, ac i lefel addysg uwch. Roedd y rhaglen, sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru (2022), yn ceisio ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o stiwardiaid morol i ddal i ofalu am yr amgylchedd morol. Mae'r rhaglen addysg yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau di-dâl, gan gynnwys:

- Ystod o gynlluniau gwersi, taflenni gwaith, gemau rhyngweithiol a gweithdai
- 'Saffari Wystrys' i gael golwg agos ar wystrys
- Gweithdai dosbarth a gwasanaethau boreol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm – digidol neu wyneb yn wyneb yn ôl y galw
- Cyfranogiad ymarferol yn ein prosiect cadwraeth forol
- Gallwn hefyd gynnig interniaethau myfyrwyr a chyfleoedd ar gyfer prosiect ymchwis




*Llun: Adnoddau addysg*

Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliwyd 32 o weithdai rhyngweithiol mewn ysgolion a safleoedd marina, gan gyrraedd dysgwyr ar bob lefel o addysg ffurfiol. O'r rhain, darparwyd 23 yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg, gan sicrhau mynediad cynhwysol at addysg gwyddor môr yng ngogledd Cymru.

Derbyniodd tîm y prosiect ddigon o adborth cadarnhaol gan ysgolion a myfyrwyr am y sesiynau a ddarparwyd:

> "Mwynhaodd y plant eich sesiynau'n fawr iawn, ac rwy'n siŵr y byddant wedi elwa'n fawr o'r diwrnod STEM. Gobeithio y gallwch ymuno â ni ar gyfer rhagor o ddigwyddiadau fel hyn yn y dyfodol."

- Rhian Richardson – Ymestyn yn Ehangach, CA3, Ysgol Y Moelwyn.

> *"Fe wnaeth fy merch fwynhau eich ymweliad yn fawr iawn ac roedd hi ar dân eisiau dweud yr hanes pan ddaeth hi adref. Diolch am ei hysbrydoli hi! Doeddwn i ddim yn gwybod am y gwaith rydych chi'n ei wneud felly roedd hi'n ddiddorol clywed a darllen amdano."*

– Rhiant myfyriwr CA2, Ysgol Deganwy.

> *"Diolch am y gweithdy wnaethoch chi ei gynnal dydd Gwener diwethaf! Dw i wedi dysgu llawer ac wedi sylweddoli ble galla i fynd â'r pwnc i lefel uwch!"*

- Elen Salisbury – Athrawes, CA2, Ysgol Sŵn y Don; gweithdy cyn-safle.




*Llun: Ymgysylltu â chymunedau lleol: Detholiad o ddigwyddiadau estyn allan a gynhaliwyd yn gynnar yn 2024*

## Datblygu Strategaeth Gynhwysiant

### *Datblygu Strategaeth Gynhwysiant ar gyfer Menywod, Merched a Chymunedau Grwpiau Ethnig Leiafrifol nad ydynt yn cael eu Gwasanaethu'n ddigonol mewn STEAM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, y Celfyddydau a Mathemateg)*

Un o brif amcanion y prosiect dan Nod 2 oedd datblygu strategaeth gynhwysiant a fyddai'n siapio pob gweithgaredd estyn allan ac ymgysylltu.

Ffurfiodd Fframwaith Cadwraeth FAIRER ZSL sylfaen y strategaeth, drwy ymwreiddio cynhwysiant ac atgyrchedd yn y prosiect, gan greu man ar gyfer dysgu cydfuddiannol a chydweithio teg.

Mae poblogaeth gogledd Cymru yn Wyn gan mwyaf (97.5%), sy'n achosi heriau o ran ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau ethnig nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol a sicrhau cyfranogiad amrywiol. Roedd pontio'r bwlch gwahaniaethau ar sail rhywedd mewn pynciau STEAM hefyd yn ystyriaeth allweddol.

Roedd datblygu'r strategaeth hon yn golygu cydweithio â sefydliadau sydd wedi llwyddo i ymgysylltu â'r grwpiau hyn, neu sy'n ymgysylltu â hwy ar hyn o bryd, er enghraifft Prosiect SIARC, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru, Ymestyn yn Ehangach, a thîm addysg ac ymgysylltu Sŵ Caer. Roedd

deall gwersi a ddysgwyd gan sefydliadau eraill yn hollbwysig er mwyn datblygu dull gweithredu i Gonwy a oedd yn sicrhau bod cadwraeth forol yn fwy hygyrch.

Cynyddodd tîm y prosiect ei ymgysylltiad â grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol drwy bartneriaethau ag ysgolion, sefydliadau cymunedol, a rhwydweithiau diwylliannol, gan gynnwys Cymdeithas Endeavour (cymdeithas y myfyrwyr, Prifysgol Bangor), Pobl i Bobl (grŵp ffoaduriaid, Ynys Môn), Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru (NWAS, Bangor), ac arbenigwyr ym Mhrifysgol Bangor. Darparodd y tîm dri digwyddiad estyn allan wedi'u targedu, a ddatblygwyd ar y cyd â'r cymunedau hyn. Roedd y rhain yn cael eu llywio gan y strategaeth gynhwysiant, ac roeddent yn canolbwyntio ar ddeall anghenion y grwpiau a'u diddordeb yn y prosiect, gyrfaoedd, a'r amgylchedd morol.



*Llun: Enghraifft o bost cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r digwyddiad 'Cyflymu Gweithredu: Ysbrydoli Gyrfaoedd mewn Gwyddor Môr', a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor.*

## Roedd Y Prif Ddigwyddiadau Yn Cynnwys:

- Sgwrs gyda'r nos ym Mhrifysgol Bangor ar 11 Chwefror 2025 ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Menywod a Merched mewn Gwyddoniaeth. Roedd y sgwrs yn cynnwys gwyddonwyr morol benywaidd, ac roedd wedi'i chynllunio ar y cyd ag addysgwyr, myfyrwyr ac arbenigwyr o fyd diwydiant.
- Dau weithdy STEAM gyda NWAS yn Chwefror a Mawrth 2025 i ddathlu Wythnos Gwyddoniaeth Prydain, yn cynnwys gweithgareddau creadigol fel adeiladu cerflun clai o riff i archwilio bioamrywiaeth.
- Ymweliad â safle marina gyda Pobl i Bobl ar 25 Chwefror 2025, yn cynnwys cyfleoedd dysgu ymarferol yn ymwneud ag adfer wystrys.



*Llun: Siaradwyr gwadd o bob rhan o'r sector morol yn dilyn sgwrs gyda'r nos i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Menywod a Merched mewn Gwyddoniaeth y Cenhedloedd Unedig.*

## Gwersi a ddysgwyd

### Sicrhau Mynediad Teg At Gyfleoedd Dysgu

- Dyrannu cyllid penodedig ar gyfer costau teithio ysgolion, yn enwedig ar gyfer ardaloedd gwledig neu incwm isel, er mwyn dileu rhwystrau mynediad a hybu cynhwysiant ar draws rhanbarthau.
- Creu adnoddau hyblyg, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ac sydd wedi'u teilwra ar gyfer amrywiol Gyfnodau Allweddol a fframweithiau addysg cenedlaethol (e.e. y Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru), tra'n addasu deunyddiau ar gyfer anghenion amrywiol dysgwyr—o wahanol oedran, cefndir, gallu a chyd-destun—er mwyn gwella ymgysylltiad a chanlyniadau dysgu.

### Ymwreiddio Cynnwys, Cynrychiolaeth, A Pherthnasedd Diwylliannol

- Datblygu adnoddau dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) a chynhwysol wedi'u cynllunio â hygyrchedd mewn golwg (e.e. offer dysgu cyffyrddadwy, fformatau addas i'r synhwyrau, realiti rhithwir), gan fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr niwrowahanol ac anabl ac adlewyrchu amrywiaeth diwylliannol.
- Ymgysylltu ag addysgwyr yn gynnar yn y broses gynllunio er mwyn nodi anghenion cefnogaeth penodol ac atebion cyd-ddylunio.
- Ymgorffori'r iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ar draws rhaglenni er mwyn gwella hygyrchedd a chryfhau perthnasedd lleol. Cyllidebu ar gyfer cyfieithu o safon a dyluniad sensitif o safbwynt diwylliannol..

### Ysbrydoli Llwybrau'r Dyfodol Drwy Berthnasedd I'r Byd Go Iawn

- Cysylltu gweithgareddau dysgu â llwybrau gyrfa STEM lleol—megis dyframaeth, gwyddor môr, ac adfer cynefin—er mwyn cymell pobl ifanc, yn enwedig merched a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, i archwilio gyrfaoedd sy'n ymwneud â'r môr.
- Integreiddio'r celfyddydau ochr yn ochr â STEM (STEAM) er mwyn gwella creadigrwydd, ehangu apêl, a chefnogi dysgu trawsgwricwlaidd.

### Cydweithio A Dysgu Gan Eraill

- Ymgysylltu ag arbenigwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chymryd rhan mewn gweithdai a rhwydweithiau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio rhaglen gynhwysol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- Cryfhau effaith drwy bartneriaethau â sefydliadau sy'n bodoli'n barod, digwyddiadau, a grwpiau cymunedol—cynyddu gwelededd, ymddiriedaeth, a chyrhaeddiad heb ddyblygu ymdrechion.

## Ymgysylltu Â'r Gymuned A Stiwardiaeth Barhaus

- Amseru digwyddiadau estyn allan at y cyhoedd o gwmpas prif gerrig milltir y prosiect er mwyn adeiladu momentwm a sicrhau bod cymunedau yn teimlo eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd, yn cael eu cynnwys, ac yn cael eu gwerthfawrogi.
- Cydnabod a dathlu cyfraniadau gwirfoddolwyr drwy ddigwyddiadau crynhoi tymhorol a chyfleoedd parhaus i gymryd rhan (e.e. gwyddoniaeth dinasyddion, monitro, diweddariadau digidol).
- Defnyddio lluniau neu fideos diddorol a storïau personol ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu effaith, adeiladu cysylltiad emosiynol, ac annog cefnogaeth ehangach gan y cyhoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau ymgysylltu, gweler ein hadroddiad: **#NNF2 Adfer Wystrys Gwyllt i Fae Conwy: Dathlu Ymgysylltu â Chymunedau, Addysg a Diwylliant**



Llun: Aelodau o Gymdeithas NWAS yn dathlu Wythnos Gwyddoniaeth Prydain drwy adeiladu riffiau wystrys â chlai i archwilio bioamrywiaeth arfordirol leol.




Llun: © Rhianna Parry, Swyddog Ymgysylltu ac Ymchwil, Prifysgol Bangor


## Casgliad

*Er gwaethaf oedi o ganlyniad i waith adleoli gwalfâu anwastad blaenorol a heriau dilynol â thrwyddedu morol, sicrhaodd Prosiect #NNF2 Adfer Wystrys Gwyllt i Fae Conwy ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol arwyddocaol—diolch i gefnogaeth a hyblygrwydd y Gronfa Rhwydweithiau Natur (Rownd 2).*

Llwyddodd y prosiect i gyrraedd ei darged o adleoli 20 tunnell o walfâu a 2,000 o wystrys brodorol, gan ffurfio sail treial adfer cyffrous. Rhagorodd ei raglen ehangedig i ymgysylltu â'r gymuned ar ei thargedau, gan gyrraedd dros 11,000 o aelodau o'r cyhoedd a thros 3,000 o fyfyrwyr. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddi 185 o ddinasyddion-wyddonwyr newydd, y mae llawer ohonynt yn dal i gefnogi ymdrechion monitro wystrys parhaus.

O ganlyniad i gyllid NNF2 llwyddwyd i recriwtio Swyddog Ymgysylltu penodedig ym Mhrifysgol Bangor. Roedd hyn yn golygu bod modd datblygu strategaeth gynhwysiant newydd a chryfhau'r cydweithio ag ysgolion lleol, cyrff anllywodraethol, a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli. Mae perchnogaeth leol gref, partneriaethau, a chefnogaeth

gymunedol wedi galluogi'r tîm i addasu'n gyflym a gweithio'n effeithiol mewn ymateb i heriau'r prosiect.



©2020, Native Oyster Network – UK & Ireland,
Native Oyster Restoration Alliance.

## Gwaddol a Dyfodol

*Mewn cyfnod o ddirywiad parhaus a heriau i wystrys brodorol, a cholli cynefin morol ehangach ledled y DU, mae'r prosiect hwn yn ffordd o gymryd camau pellach.*

Mae cyfuniad o gefnogaeth leol i'r prosiect, a gwybodaeth a gafwyd dan y peilot cychwynnol, wedi helpu i fwydo i mewn i weithgaredd gwaddol a gyflawnir dan brosiect newydd yn dwyn y teitl '#NNF3 Cysylltu Conwy: Cynllun ar gyfer adfer cynefinoedd arfordirol ym Mae Conwy ac afon Menai ar raddfa morwedd'. Nod y prosiect 'cam 3' hwn yw ymchwilio a chynyddu gwydnwch, cysylltedd, ac iechyd y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig. Drwy weithio gyda phartneriaethau arfordirol lleol sy'n bodoli'n barod ac ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl, bydd y prosiect yn ceisio cael gwell dealltwriaeth

o bresenoldeb a dosbarthiad lleol presennol cynefinoedd morol, gan gynnwys morwellt, wystrys brodorol, morfeydd heli a chregyn gleision, a chynnal treialon ar raddfa fach ac arolygon er mwyn nodi rhwystrau eraill sy'n atal adferiad.

Cefnogir hyn drwy estyn allan at gymunedau er mwyn ehangu dealltwriaeth o'r cynefinoedd morol ac arfordirol hyn, ac ymgysylltu â stiwardiaeth forol drwy brosiectau morol a gweithgareddau adfer sy'n bodoli'n barod yn y rhanbarth. Bydd hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer cynllun adfer morwedd yn y dyfodol er mwyn cynyddu amrywiaeth, maint, cyflwr a chysylltedd cynefinoedd morol ym Mae Conwy ac afon Menai.



Delwedd: © Soul2Sand, Gŵyl Wystrys yr Hydref, gwaith celf tywod

# Cyswllt

## The Zoological Society Of London

www.zsl.org/what-we-do/projects/marine-habitat-restoration

Zoological Society of London, Regent's Park, Llundain, NW1 4RY

Elusen Gofrestredig rhif. 208728

Prifysgol Bangor

https://www.bangor.ac.uk/cy/wystrys-gwylllt-bae-conwy/nnf2-dod-ag-wystrys-gwyllt-yn-ol-i-fae-conwy

Ysgol Gwyddorau Eigion, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5AB